Mae **Orbit360** yn system adborth cleifion a chydweithiwr penodol o'r pen i'r diwedd, yn rhoi adborth gan gydweithiwr sy'n integreiddio'n uniongyrchol i'r System Ailddilysu Arfarnu Meddygol (MARS).
Datblygwyd y system gan yr Uned Cymorth Ailddilysu a'r Tîm Digidol, fel rhan o Addysg a Gwella Iechyd Cymru, i gefnogi pob meddyg sydd â chysylltiad rhagnodedig â chorff a ddynodwyd gan y GIG yng Nghymru

# Canllaw i Gydweithwyr Meddygol Cynhaliol (SMC)

Bydd angen i feddyg enwebu Cydweithiwr Meddygol Cynhaliol (SMC) ar ddechrau'r broses adborth. Bydd yr SMC yn sicrhau bod y meddyg wedi enwebu ystod o gydweithwyr sy'n rhychwantu cwmpas llawn ei bractis. Efallai y bydd yn dymuno trafod canlyniadau'r adborth yn anffurfiol cyn rhyddhau'r wybodaeth i'r meddyg. Bydd y meddyg yn trafod, yn adfyfyrio ac yn trafod y canlyniadau'n fwy ffurfiol fel rhan o un o'i arfarniadau blynyddol.

## Beth yw fy nghyfrifoldebau fel Cydweithiwr Meddygol Cynhaliol?

Rôl y Cydweithiwr Meddygol Cynhaliol (SMC) yn y broses, yw helpu'r meddyg i wneud synnwyr o'r adborth ac adfyfyrio. **Rhaid i'r SMC fod yn gydweithiwr meddygol, ac er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ni chaniateir iddo fod yn berthynas.** Fel SMC byddwch yn;

- Gwirio'r rhestr o gydweithwyr y mae'r meddyg wedi'u dewis. Dylech sicrhau bod y rhestryn cynrychioli cydweithwyr o bob rhan o bractis y meddyg
- Cael copi o adroddiad y meddyg i'w adolygu ar ôl iddo gyrraedd trothwyon y claf / cydweithiwr
- Gallu rhoi adborth ar yr adroddiad a'i ryddhau i'r meddyg

## Alla i wrthod y cais SMC?
Gallwch. Does dim rhaid i chi dderbyn y cais.

## Am beth ddylwn i fod yn chwilio wrth adolygu'r rhestr o gydweithwyr?
Dylai'r rhestr o gydweithwyr gynrychioli cydweithwyr o bob rhan o bractis y meddyg (staff meddygol, nyrsio, gweinyddol ac yn y blaen) cyn y gallwch ei chymeradwyo. Pan fyddwch wedi cymeradwyo'r rhestr, bydd Orbit360 yn anfon yr holiadur at y cydweithwyr a enwebwyd yn awtomatig.

## Sut alla i weld cynnydd ymatebion adborth y meddyg?
Ar ôl i chi fewngofnodi i Orbit360, byddwch yn gallu gweld rhestr o'r holl feddygon rydych yn gweithredu fel SMC iddynt. Byddwch yn gallu gweld y bar cynnydd ar gyfer pob meddyg er mwyn monitro eu cynnydd yn y broses.

## Mae meddyg wedi oedi eu harolwg, beth ddylwn i ei wneud?
Bydd unrhyw feddygon rydych yn gweithredu fel SMC ar eu cyfer, ac yn cael eu 'oedi' yn cael eu tynnu o'ch rhestr 'camau gweithredu SMC'. Ni fyddwch yn gallu gweithredu unrhyw beth tra bod arolygon y meddyg yn cael eu hoedi. Bydd unrhyw ymatebion adborth y mae meddyg wedi eu derbyn gan gydweithwyr neu gleifion yn cael eu cadw yn eu cynnydd.

GIG Cymru NHS Wales | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

## Nodiadau â rhoi adborth

Fel SMC mae gennych ran bwysig i'w chwarae ym mhroses adborth eich cydweithiwr. Eich tasg gyntaf fel SMC yw cymeradwyo'r rhestr o gydweithwyr a ddewiswyd i roi adborth (mae nodiadau am y broses hon i'w gweld ar y dudalen 'SMC requests').

Ar ôl i'r broses adborth gael ei chwblhau byddwch yn derbyn ebost yn eich hysbysu bod angen i chi wirio a rhyddhau'r adroddiad. Dylech fewngofnodi i Orbit360, agor yr adroddiad ac archwilio'r adborth, a phenderfynu:

1. A yw pob agwedd ar yr adborth yn dda?
2. A oes mân bethau sy'n awgrymu anghenion datblygu?
3. A oes nifer o feysydd lle nad yw'r adborth yn dda?
4. A oes un neu ragor o agweddau lle byddai'r adborth yn synnu'r meddyg neu'n peri gofid iddo?

A oes un neu ragor o sylwadau sy'n bersonol, yn anghwrtais neu'n ddifrïol?



Bydd y rhan fwyaf o'r adroddiadau'n perthyn i'r ddau bwynt cyntaf a gellir rhyddhau'r adborth i'r meddyg ar ôl sgwrs fer yn cynnig trafod yr adborth ar ddyddiad i'w drefnu. Dylai'r sgwrs hon ganolbwyntio ar farn y meddyg ynglŷn â'r adborth, ac os oes angen datblygu neu newid rhywbeth, pa agweddau yw'r rheiny. Dylech atgoffa'r meddyg bod angen iddo gofnodi ei sylwadau yn y rhan briodol o'i gyfrif MARS. Cofiwch y bydd rhai meddygon yn poeni os nad ydynt yn cael sgôr yn y categori uchaf ar gyfer popeth ac yn teimlo'n flin neu'n ddigalon os nad ydynt yn cael eu gweld fel meddyg perffaith.

Bydd angen sesiwn adborth manylach ar gyfer pwyntiau 3 a 4. Bydd angen i chi benderfynu a ydych am ryddhau'r adborth i'r meddyg cyn y cyfarfod neu yn y cyfarfod. Trefnwch amser a lle a fydd yn eich galluogi i siarad yn breifat. Cofiwch fod y meddyg yn debygol o ganolbwyntio ar adborth negyddol, a'i bod yn bosibl na fydd yn gweld yr adborth cadarnhaol sydd yno hefyd.



- Gofynnwch i'r meddyg sut roedd yn teimlo ynglŷn â'r adborth:
  - o Dechreuwch â'r pethau cadarnhaol (beth rydych chi wedi'i wneud yn dda, pa agweddau oedd yn eich plesio chi?)
  - o Holwch am feysydd i'w datblygu
  - o Gofynnwch sut mae'n mynd i ddefnyddio'r adborth
  - o Gofynnwch a oes angen rhagor o gefnogaeth i wneud newidiadau
  - o Gofynnwch a oes rhywbeth yn yr adborth sydd wedi peri gofid iddo/iddi
- Edrychwch am yr ymateb emosiynol i'r adborth a'ch trafodaeth
- Atgoffwch y meddyg bod angen iddo gofnodi ei ymateb yn yr adran briodol o'i gyfrif MARS
- Cynigiwch ragor o gefnogaeth ar ddyddiad arall os oes angen

Mewn achos anarferol lle mae adborth yn bersonol, yn anghwrtais neu'n ddifrïol mae'n bosibl y byddwch yn dymuno gofyn am gyngor cyn rhyddhau'r adborth. Mae'r adroddiad yn gyfrinachol rhyngoch chi fel SMC a'r meddyg dan sylw, ac eto gallai rhyddhau'r sylwadau hyn beri gofid i'r meddyg dan sylw.

Mewn achos o'r fath gallwch ofyn am gyngor gan eich swyddfa ailddilysu leol neu gallwch gysylltu â'r Uned Cymorth Ailddilysu (RSU) drwy ebost heiw.orbit360@wales.nhs.uk

Gweler rhest'r o'n **Cwestiynau Cyffredin**.

orbit360

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) | Health Education and Improvement Wales (HEIW)



Ddiweddaru ddiwethaf 12/10/2021 (EO)